**Adroddiad i'r:** **CABINET**

**Dyddiad y Cyfarfod:** **23 Hydref 2012**

**Aelod Cabinet Arwain:** **y Cynghorydd Julian Thompson-Hill**

**Swyddog Arwain:** **Paul McGrady, Pennaeth Cyllid ac Asedau**

**Teitl:** **Adroddiad Cyllid**

## 1 Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn rhoi manylion arbedion a chyllideb refeniw'r cyngor fel y cytunwyd arnynt ar gyfer 2012/13 fel ar ddiwedd mis Medi 2012. Mae'r adroddiad hefyd yn crynhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y Cynllun Cyfalaf, y Cyfrif Refeniw Tai a'r Cynllun Cyfalaf Tai.

## 2 Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am sefyllfa ariannol gyfredol y Cyngor.

## 3 Beth yw'r Argymhellion?

Bod yr Aelodau'n nodi'r targedau cyllidebau ac arbedion am y flwyddyn ac yn symud ymlaen mewn perthynas â'r strategaeth gyllideb y cytunwyd arni.

## 4 Manylion yr adroddiad

Cyflwynir rhagolwg diweddaraf y gyllideb refeniw yn **Atodiad 1** ac mae'n dangos ychydig bach o danwariant ar draws pob gwasanaeth, gan gynnwys ysgolion.

Mae crynodeb y Cyfrif Refeniw Tai hefyd wedi'i gynnwys yn Atodiad 1 er gwybodaeth ond cronfa ar wahân yw hon ac nid yw'n rhan o brif gyllideb refeniw'r cyngor.

Yn **Atodiad 2** i'r adroddiad hwn, mae diweddariad sy'n dangos cynnydd mewn perthynas â'r arbedion a'r pwysau y cytunwyd arnynt yn rhan o broses gosod cyllideb 2012/13. I gyd, cytunwyd ar arbedion net o £3.443m a chyflawnwyd £2.153m (63%) gyda £1.290m (37%) wedi'i ddosbarthu'n rhai 'ar waith'. Er bod eitemau'n dal i gael eu dosbarthu fel rhai 'ar waith', credir bod modd cyflawni'r holl arbedion a restrwyd. Bydd y targed arbed corfforaethol, ynglŷn â newid rhai defnyddwyr ceir hanfodol i statws defnyddwyr achlysurol ac effaith newid y rheolau diystyru sy'n berthnasol i deithio busnes cartref i'r gwaith, yn cael ei gyrraedd a bydd y ffigur yn cael ei gadarnhau fis nesaf.

5 **Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae rheolaeth effeithiol ar gyllidebau refeniw a chyfalaf y cyngor a chyflenwi'r strategaeth gyllideb y cytunwyd arni yn sail i weithgarwch ym mhob maes, gan gynnwys y blaenoriaethau corfforaethol.

6 **Beth fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Defnyddir yr adran hon o'r adroddiad i amlygu unrhyw amrywiannau allweddol o'r targedau cyllideb neu arbedion, risgiau neu arbedion ychwanegol posibl a allai godi drwy gydol y flwyddyn ac i roi'r wybodaeth ddiweddaraf fwy cyffredinol am y Cynllun Cyfalaf a'r Cyfrif Refeniw Tai. Mae'r sefyllfa hyd ddiwedd mis Medi'n dangos bod y rhan fwyaf o wasanaethau'n disgwyl cyflawni cyllideb fantoledig. Disgrifir isod y meysydd y mae gofyn eu hegluro ymhellach.

Ar ddiwedd 2011/12, dygwyd ymlaen gyfanswm o £1.3m o weddillion refeniw gan wasanaethau. Yn yr adran ganlynol y mis hwn mae manylion y gweddillion a ddygwyd ymlaen a gwybodaeth am y cynnydd a'r tybiaethau diweddaraf mewn perthynas â defnyddio gweddillion refeniw a ddygwyd ymlaen.

**Cyllidebau Gwasanaethau**
Dygodd y gwasanaeth **Perfformiad a Chynllunio Busnes** tanwariant o £182k ymlaen. O hyn, mae £78k wedi'i wario neu ei ymrwymo i gyllido nifer o fentrau, gan gynnwys hyfforddiant Prince2 a menter cyllideb gyfranogol.

Dygodd y **Gwasanaethau Cyfreithiol a Democratig** ymlaen weddill o £28k a defnyddiwyd £10k i ariannu pwysau yn ystod y flwyddyn.

**Cyllid ac Asedau** – dygwyd ymlaen gweddill o £140k ac fe'i defnyddiwyd i ariannu nifer o gostau ychwanegol fel swydd dros dro yn yr adran Gaffael a phwysau cost yn yr adrannau Archwilio Mewnol a Refeniwiau a Budd-daliadau. Yn yr adran Eiddo, ariannwyd costau cysylltiedig â'r gwaith a gwblhawyd yng nghanolfan Rhyl Sun Centre a Thŵr Awyr y Rhyl.

**Priffyrdd a Seilwaith** – y gweddill a ddygwyd ymlaen oedd £261k. Ariannwyd nifer o gostau untro gan gynnwys newid mecanweithiau darnau arian ar fesuryddion parcio, cyfrannu at gost llochesi bysiau yn rhan o ddatblygu Gorsaf Fysiau Prestatyn, digwyddiadau'r Fflam Olympaidd a chael technoleg offer llaw newydd i orfodi parcio. Cyflwynwyd cynigion eraill ac maent yn dal i gael eu hasesu.

**Gwasanaethau Cynllunio a Rheoleiddio** – dygwyd gweddill o £52k ymlaen ac mae'n cael ei ddefnyddio i ariannu costau ailstrwythuro yn y flwyddyn gyfredol.

Dangosir bod cyllidebau'r **Gwasanaethau Oedolion** wedi'u mantoli ond, ar hyn o bryd, tybir y bydd tua £320k o Gronfa Wrth Gefn Cefnogi Pobl yn cael ei defnyddio i ariannu'r pwysau yn y flwyddyn. Roedd hyn yn rhan o'r strategaeth y cytunwyd arni mewn cyfarfodydd Herio Gwasanaeth blaenorol a'r rheswm penodol dros greu'r Gronfa Wrth Gefn yn y lle cyntaf.

**AD Strategol** – dygodd weddill o £39k ymlaen. O hyn, ymrwymwyd £10k i ariannu costau yn ystod y flwyddyn a chlustnodwyd y gweddill i gyfrannu at gostau ailstrwythuro'r adran Iechyd a Diogelwch.

Dygodd gwasanaeth yr **Amgylchedd** weddill o £89k ymlaen. O hyn, defnyddiwyd £69k i ariannu cyfuniad o gostau ailstrwythuro, prynu tir (Loggerheads) ac ariannu canlyniad adolygiad rhent wedi'i ôl-ddyddio o blaid Ymddiriedolaeth Castell Bodelwyddan.

Dygodd y gwasanaeth **Gwella Ysgolion a Chynhwysiant** weddill o £321k ymlaen. Clustnodir hyn i ariannu costau sy'n gysylltiedig â'r gwasanaeth rhanbarthol ac ad-drefnu ysgolion yn Sir Ddinbych. Efallai hefyd y bydd angen rhoi rhywfaint o ddiogelwch trosiannol i ysgolion wrth i'r fformiwla ariannu newydd gael ei gyflwyno.

Mae'r cyllidebau **Moderneiddio Addysg a Gofal Cwsmeriaid** ar hyn o bryd yn rhagweld ychydig bach o danwariant, sef £45k. Mae'r rhain yn wargedion canol blwyddyn oherwydd ailstrwythuo'r staff, sy'n cael ei weithredu ar hyn o bryd. Dygodd yr elfen Moderneiddio Addysg o'r gwasanaeth gweddill o £39k ymlaen.

Dygodd yr adran Gwasanaethau Cwsmeriaid fel yr oedd (cyn yr ailstrwythuro corfforaethol diweddar) weddill o £107k ymlaen. O hyn, defnyddiwyd £58k i ariannu costau mewn TGCh a'r Wasg a Chysylltiadau Cyhoeddus, gan gynnwys datblygu mewnrwyd a chostau ailstrwythuro.

**Adfywio** – roedd yr adran yn rhan o'r Gwasanaethau Cynllunio a Rheoleiddio'r llynedd a dygodd ymlaen weddill o £90k a ddefnyddiwyd i lyncu pwysau yn y flwyddyn gyfredol.

Y sefyllfa ar hyn o bryd yn y flwyddyn mewn perthynas â gweddillion a ddygwyd ymlaen yw bod £1.1m wedi'i wario neu ei ymrwymo gan olygu bod £220k o'r cyfanswm heb ei ymrwymo ar hyn o bryd ac ar gael o bosibl i'w ailddyrannu.

**Ysgolion** – fel ar ddiwedd mis Medi, y rhagamcaniad ar gyfer gweddillion ysgol yw £1.876m. Mae hwn yn gam cadarnhaol, sef £75k i ffwrdd o'r gweddillion o £1.801m a ddygwyd ymlaen o 2011/12. Ar hyn o bryd mae'r cyngor yn gweithio gyda dwy ysgol sydd mewn anhawster ariannol gyda chyfanswm o £439k o weddillion diffyg. Mae gan yr ysgolion hyn gynlluniau adfer yn eu lle ac maent wrthi'n gweithio tuag at y targedau a nodwyd yn y cynlluniau hyn.

**Tybiaethau Cyllideb 2012/13**
Wrth baratoi cyllideb 2012/13, gwnaethpwyd nifer o dybiaethau am bwysau a fyddai'n wynebu'r Cyngor a rhoddwyd cyllidebau priodol yn eu lle. Dau o'r prif bwysau oedd tebygolrwydd codiad cyflog i'r staff a chostau ynni'n cynyddu'n sylweddol. Fel y cyfryw, cyllidodd y Cyngor tuag £1.5m i dalu'r costau hyn.

Roedd y cynnydd mewn prisiau ynni'n llawer llai na'r disgwyl ac roedd hyn, ynghyd â gostyngiad sylweddol mewn defnydd, yn golygu y gellid llyncu'r codiad pris yn y cyllidebau presennol. Ni chytunwyd ar y codiad pris tan ar ôl i'r gyllideb gael ei gosod ac felly nid oedd y gyllideb ychwanegol yn ofynnol.

Yn yr un modd, cyllidodd y Cyngor am godiad cyflog i'r staff, ond ni ddigwyddodd hyn. Fodd bynnag, cadarnhawyd bod cyflogau'n cael eu rhewi ar ôl i'r gyllideb gael ei gosod ac felly roedd gan y Cyngor gyllideb am godiad cyflog na fyddai'n digwydd bellach.

Bydd y cyllidebau hyn sydd heb eu defnyddio'n cael eu defnyddio i leihau'r pwysau ar gyllideb y Cyngor yn y blynyddoedd i ddod ac maent wedi'u cynnwys yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Fodd bynnag, am na fydd y cyllidebau'n cael eu defnyddio eleni, byddant yn arbed tua £1.7m o arian yn ystod y flwyddyn. Yn unol â chymeradwyaeth ddiweddar y Cyngor i'r Cynllun Corfforaethol a'i ddymuniad i sefydlu 'Cronfa Wrth Gefn Buddsoddiad Strategol', dangosir y swm hwn yn atodiad 1 fel trosglwyddiad i gronfeydd wrth gefn.

**Cynllun Cyfalaf**
Y gwariant hyd ddiwedd mis Medi yw £9m mewn perthynas â Chynllun o £33.3m y cytunwyd arno. Dengys **Atodiad 3** grynodeb o'r cynllun cyfredol a sut mae'n cael ei ariannu. Dangosir trosolwg o brif brosiectau cyfalaf yn **Atodiad 4**.

**Cyfrif Refeniw Tai (HRA)**
Mae rhagolwg diweddaraf y Cyfrif Refeniw Tai'n dangos diffyg canol blwyddyn o £77k. Mae hyn yn cymharu â gwarged canol blwyddyn a gyllidwyd o £71k. Fodd bynnag, mae'r gyllideb a'r alldro'n cynnwys darpariaeth i ariannu gwariant cyfalaf o refeniw. Y dybiaeth ddiweddaraf yw y bydd £431k yn cael ei ddefnyddio i ariannu gwariant cyfalaf. Mae'r Cynllun Busnes yn ddichonadwy o hyd ac, yn seiliedig ar y rhagolwg diweddaraf, gweddill y Cyfrif Refeniw Tai i'w ddwyn ymlaen fydd £794k, o'i gymharu â rhagamcaniad o £942k yn y gyllideb.

Rhagwelir y bydd y Cynllun Cyfalaf Tai'n gwario £7.4m yn 2012/13 sy'n cael ei ariannu'n rhannol gan fenthyca darbodus (£4.6m). Mae'r broses o gyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru erbyn diwedd 2012/13 yn debygol o gyrraedd y targed ac mae arolwg manwl o gyflwr y stoc wedi'i gwblhau'n ddiweddar. Bydd canlyniadau'r arolwg yn cael eu cynnwys mewn Cynllun Busnes Stoc Dai wedi'i ddiweddaru dros y misoedd nesaf a bydd hyn yn helpu i lywio tybiaethau cynllunio busnes a buddsoddi cyfalaf wrth fynd ymlaen.

Dangosir crynodeb o sefyllfa ddiweddaraf y Cyfrif Refeniw Tai yn y tabl isod.

*Crynodeb o'r Cyfrif Refeniw Tai a'r Cynllun Cyfalaf:*

| Crynodeb o'r Cyfrif Refeniw Tai 2012/13<br>Medi 2012 | | |
|---|---|---|
| **Gwariant** | | **£'000** |
| Rheoli a Chynnal a Chadw Tai | | 5,814 |
| Taliadau Cyfalaf | | 2,662 |
| Cymhorthdal | | 3,081 |
| Darparu ar gyfer drwg ddyledion | | 29 |
| | | 431 |
| **Cynllun Cyfalaf Tai<br>Medi 2012** | | **£,000** |
| Gwariant Cyfalaf Cyllid Refeniw | | 7,437 |
| **Cyfanswm Gwariant** | | **12,017** |
| **Incwm** | | |
| Rhenti | | 11,777 |
| Garejys | | 158 |
| Llog | | 5 |
| **Cyfanswm Incwm** | | **11,940** |
| **Gwarged / (Diffyg) Canol Blwyddyn** | | **(77)** |
| **Gweddill y Cyfrif Refeniw Tai wedi'i Ddwyn Ymlaen** | | **794** |
| Gwariant wedi'i Gynllunio | | |
| **Ariannwyd gan:** | | |
| Lwfans Atgyweiriadau Mawr | | 2,400 |
| Cyfraniad Refeniw | | 431 |
| Derbyniadau Cyfalaf | | 17 |
| Benthyca Darbodus | | 4,589 |
| **Cyfanswm** | | **7,437** |

## 7 Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd?

Argymhellwyd y gyllideb refeniw gan y cabinet a chytunodd y cyngor yn ffurfiol arni ar ôl cylch helaeth o heriau gwasanaeth. Cymeradwywyd y cynllun cyfalaf gan y cyngor ar ôl i'r Grŵp Buddsoddi Strategol graffu arno ac ar ôl i'r cabinet ei argymell. Cymeradwywyd y Cyfrif Refeniw Tai ar ôl ymgynghori ag aelodau etholedig a chynrychiolwyr ffederasiwn tenantiaid.

## 8 Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Mae'r adroddiad hwn yn amlygu'r cyllidebau refeniw a chyfalaf fel y cytunwyd arnynt ar gyfer 2012/13 ac mae'n arddangos sut bydd y Cabinet yn cael gwybod am gyllid y cyngor drwy gydol y flwyddyn. Disgwylir i wasanaethau gyflawni'r arbedion y cytunwyd arnynt drwy'r Heriau Gwasanaeth a phrosesau gosod cyllideb ac, ar hyn o bryd, maent fel petaent am gyrraedd y targed i'w cyflawni. Mae'n bwysig bod gwasanaethau'n parhau i reoli cyllidebau'n gall a bod unrhyw wargedion yn ystod y flwyddyn yn cael eu hystyried yng nghyd-destun y sefyllfa ariannol tymor canolig.

**Sylwadau am yr Economi a'r Diweddaraf am Reoli Trysorlys**

Mae'r marchnadoedd ariannol yn gyfnewidiol iawn o hyd ac mae hyn yn dal i gyfyngu ar nifer y sefydliadau y gall y cyngor fuddsoddi gyda hwy ac ar hyd y buddsoddiadau y gall y cyngor eu gwneud. Mae'r ddau beth hyn yn cyfyngu ar yr enillion y gall y cyngor eu cyflawni. Wrth i'r ansicrwydd yn y marchnadoedd barhau, mae polisi'r cyngor yn cyfyngu ar y rhan fwyaf o fuddsoddiadau newydd i roi arian i gadw dros nos. Mae'r strategaeth hon o wneud buddsoddiadau tymor byr iawn yn debygol o barhau am y tymor canolig.

Ar hyn o bryd, cyfanswm y benthyg yw £134.08m ar gyfradd gyfartalog o 5.76% a chyfanswm y buddsoddiadau yw £18.0m ar gyfradd gyfartalog o 0.75%.

**Cymeradwyaeth Flynyddol o Gyfrifon 2011/12 y Cyngor**

Ar 26 Medi, llofnododd y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn ffurfiol i gymeradwyo cyfrifon blynyddol y cyngor a derbyn adroddiad yr archwilydd allanol (Swyddfa Archwilio Cymru). Mae'r Datganiad o Gyfrifon yn ddogfen gymhleth a thechnegol sy'n gofyn ymdrech sylweddol gan nifer o aelodau staff cyllid ac eraill i'w chwblhau. Mae'n ddogfen y bydd ychydig iawn o bobl yn ei darllen ond mae'n wir yn sail i lywodraethu'r cyngor ac mae'n fesur allweddol o effeithiolrwydd stiwardiaeth ariannol. Oherwydd cymhlethdod y cyfrifon a'r ffordd y mae'n rhaid eu cynhyrchu i gydymffurfio â nifer helaeth o safonau technegol a gofynion deddfwriaethol, mae'n ymgymeriad blynyddol sylweddol. Ond, unwaith eto, cymeradwywyd cyfrifon y cyngor yn ddiamod ac yn wir cafodd ansawdd y cyfrifon a'r broses y tu ôl iddynt eu canmol gan yr archwilwyr allanol.

## 9 Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Hwn yw'r cyfnod ariannol mwyaf heriol sydd wedi wynebu'r cyngor ac, os bydd yn methu â chyflawni'r strategaeth gyllideb y cytunwyd arni, bydd yn rhoi pwysau pellach ar wasanaethau yn y flwyddyn ariannol gyfredol ac yn y dyfodol. Bydd rheoli a monitro'r gyllideb yn effeithiol a rhoi gwybod yn gynnar am amrywiannau, yn helpu i sicrhau bod y strategaeth ariannol yn cael ei chyflawni.

Mae risgiau penodol yn amlwg wrth ymdrin â phrosiectau cyfalaf a gallant gynnwys gor-redeg o ran amser neu wariant, problemau cyllid ac ystyriaethau eraill nad ydynt yn ariannol. Mae mecanwaith cymeradwyo cadarn ac adrodd a monitro ariannol agos, ynghyd â gweithdrefnau rheoli prosiect effeithiol, yn helpu i leihau'r risgiau hyn cymaint â phosibl.

Mae'r Cyfrif Refeniw Tai'n buddsoddi cyfalaf sylweddol i wella'r stoc dai ac yn defnyddio benthyciadau a grantiau i ariannu'r gwaith. Rhaid i unrhyw fenthyciadau fod yn fforddiadwy a sicrheir hynny drwy fonitro'r Cynllun Busnes Stoc Tai'n rheolaidd a'i wneud yn destun cymeradwyaeth ac asesiad dichonolrwydd blynyddol.

## 10 Pŵer i wneud y Penderfyniad

Mae gofyn i awdurdodau lleol o dan Adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 wneud trefniadau i weinyddu eu materion ariannol yn briodol.